National Audit Office

BRIFF

# Trosolwg Ariannol y Comisiwn Etholiadol 2023-24

## Y Comisiwn Etholiadol

BRIFF

gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

TACHWEDD 2024

Ni yw corff gwarchod annibynnol y DU ar gyfer gwariant cyhoeddus.

Rydym yn helpu Senedd y DU i ddal y llywodraeth i gyfrif ac yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy ein harchwiliadau o ansawdd uchel.

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn craffu ar wariant cyhoeddus ar gyfer Senedd y DU ac mae'n annibynnol ar y llywodraeth a'r gwasanaeth sifil. Rydym yn helpu Senedd y DU i ddal y llywodraeth i gyfrif ac yn defnyddio ein gwybodaeth i helpu pobl sy'n rheoli ac yn llywodraethu cyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae Gareth Davies, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, yn un o Swyddogion Tŷ'r Cyffredin ac mae'n arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Rydym yn archwilio cyfrifon ariannol adrannau a chyrff cyhoeddus eraill. Rydym hefyd yn archwilio ac yn adrodd ar werth am arian o ran y ffordd mae arian cyhoeddus wedi cael ei wario. Yn 2023, arweiniodd gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol at effaith ariannol gadarnhaol werth £1.59 biliwn drwy leihau costau, darparu gwasanaethau'n well, neu fanteision eraill i ddinasyddion. Mae hyn yn cynrychioli tua £17 am bob punt o'n gwariant net.

# Cynnwys

Yr adroddiad hwn 4

Y Comisiwn 5

Sut mae'r Comisiwn yn gwario ei arian 6

Rheolaeth ariannol a gwariant 8

Barn archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol 10

Staffio 12

Yr ymosodiad seiber 13

Atodiad Un
Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon 14

Os ydych chi angen fersiwn o'r adroddiad hwn mewn fformat gwahanol am resymau hygyrchedd, neu unrhyw ffigur mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Swyddfa yn enquiries@nao.org.uk

Roedd tîm y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnwys: Phil Bradburn, Gill Gibson, Georgina Mugan a Christopher Tipuric, dan arweiniad Simon Helps.

I gael rhagor o wybodaeth am y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cysylltwch â:

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Swyddfa'r Wasg
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

020 7798 7400
www.nao.org.uk
@NAOorguk

# Yr adroddiad hwn

**1** O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 mae'n rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol lunio adroddiad ar gyfer Pwyllgor Llywydd Senedd Cymru (y Pwyllgor) ar y defnydd o adnoddau gan y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru (neu, os bydd y Pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu ar hynny, unrhyw un o'r swyddogaethau hynny). Mae'n rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol lunio'r adroddiad i gyd-fynd â Chynllun Corfforaethol pum mlynedd y Comisiwn a'i Amcangyfrif Ariannol.

**2** Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn fel crynodeb o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth allweddol a ddaw o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn. Gwariodd y Comisiwn £32.7 miliwn yn 2023-24 i oruchwylio etholiadau a rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU.

**3** Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- disgrifiad o rôl y Comisiwn;
- sut mae'r Comisiwn yn gwario ei arian;
- adolygiad o reolaeth ariannol y Comisiwn;
- barn archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon y Comisiwn; a
- meysydd diddordeb allweddol yn y cyfrifon.

### Sut rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn

**4** Daw'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn o Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Comisiwn a ffynonellau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, ynghyd â gwybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn. Rydym wedi cynnwys nodiadau i helpu'r darllenydd i ddeall ein dadansoddiad.

### Cyhoeddiadau perthnasol eraill

**5** Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith ar y Comisiwn Etholiadol a'n hadroddiadau eraill – rhai diweddar a rhai sydd yn yr arfaeth – ar gael ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

### Rhagor o wybodaeth am waith cyfrifyddu ac adrodd llywodraeth ganolog

**6** Mae ein canllaw rhyngweithiol, *Good practice in annual reporting* (mis Chwefror 2024), yn darparu enghreifftiau gan sefydliadau blaenllaw yn y sector cyhoeddus.

# Y Comisiwn

**7** Mae'r Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) yn gyfrifol am reoleiddio cyllid gwleidyddol, am helpu pleidiau ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â rheolau etholiadol, am oruchwylio etholiadau a refferenda, ac am helpu pobl i ddeall y broses etholiadol. Nod y Comisiwn yw magu hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

**8** Cafodd y Comisiwn ei sefydlu o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 fel corff annibynnol. Mae'n uniongyrchol atebol i Senedd Cymru, Senedd y DU a Senedd yr Alban, ac yn cael cyllid ganddynt i gyflawni ei ddyletswyddau.

**9** Ar gyfer swyddogaethau datganoledig yng Nghymru, mae'r Comisiwn yn adrodd i Bwyllgor y Llywydd. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys rheoleiddio a monitro ymgyrchoedd, goruchwylio perfformiad swyddogion cofrestru, a gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu.

**10** Mae gwaith y Comisiwn yn cael ei lywio gan yr amcanion strategol a nodir yn y cynllun pum mlynedd. Rhaid cyflwyno'r cynllun hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyntaf yn dilyn etholiad cyffredinol seneddol.

**11** Yn 2023 a 2024, canolbwyntiodd y Comisiwn ar yr heriau o gefnogi'r gwaith o gyflwyno gofynion adnabod pleidleiswyr, cefnogi Etholiad Cyffredinol 2024, ac etholiadau lleol. Nododd lwyddiannau, gyda phleidleiswyr yn ymwybodol i raddau helaeth o'r gofynion adnabod pleidleiswyr ac yn fodlon ar y broses bleidleisio. Cynhaliodd y Comisiwn raglenni a chynlluniau i ymgysylltu â phleidleiswyr ifanc, ac i annog llythrennedd gwleidyddol o oedran ifanc yng Nghymru.

**12** Roedd y Comisiwn wedi wynebu costau uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol o ganlyniad i bwysau chwyddiant, mwy o wariant TG o ganlyniad i ymosodiad seiber, dyfarniad cyflog o 4.5% a thaliad costau byw o £1,500. Arweiniodd hyn at amcangyfrif atodol sylweddol. Mae Pwyllgor Llywydd Senedd Cymru a Phwyllgor Llefarydd Senedd y DU wedi craffu ar yr amcangyfrif hwn.

# Sut mae'r Comisiwn yn gwario ei arian

**13** Yn 2023-24, £32.7 miliwn oedd cyfanswm gwariant y Comisiwn. Rhannwyd costau gweithredu gros y Comisiwn rhwng y meysydd craidd Rheoleiddio (£11.9 miliwn) a Gweinyddu Etholiadol (£9 miliwn), a'r gwaith prosiect ar Ddeddf Etholiadau 2020 (£6.9 miliwn), Etholiadau a Refferenda Lleol (£4.6 miliwn) a Chofrestru Etholiadol (£0.2 miliwn).

**14** Mae'r gwariant hwn yn cael ei ariannu gan Senedd y DU (£29.3 miliwn), Senedd yr Alban (£2.0 miliwn), a Senedd Cymru (£1.4 miliwn). Mae'r rhaniad cyllid yn seiliedig ar gostau etholiadau neu weithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phob corff a chyfran o gostau anuniongyrchol i redeg y Comisiwn, yn seiliedig ar boblogaeth pob gwlad.[1]

**15** Yn 2023-24, i Gymru, roedd y costau uniongyrchol yn cynnwys gwaith uniongyrchol y Comisiwn gan gynnwys costau cyfreithiol, gwaith rheoleiddio, a gwaith cyfathrebu, polisi ac ymchwil. Roedd hyn yn £1 miliwn yn 2023-24. Roedd costau anuniongyrchol o £0.5 miliwn yn cynnwys cyfran o 5% o gostau adnoddau swyddfa gefn ledled y DU a dibrisiant ar wariant cyfalaf.[2] Mae **Ffigur 1** yn dangos dadansoddiad o'r gwariant ar gyfer Cymru.


1 Mae cyllid sy'n ymwneud â gwariant ar gyfer Senedd Cymru a Senedd yr Alban yn cael ei gydnabod fel incwm yn y datganiadau ariannol. Cofnodir incwm gan awdurdodau datganoledig nad yw'n cael ei wario fel incwm gohiriedig. O ganlyniad, roedd Gwariant Net y Comisiwn ar gyfer 2023-24 yn £29.2 miliwn.

2 Ar gyfer 2025-26, mae'r Comisiwn wedi addasu'r fformiwla ariannu, gan leihau dyraniad Senedd Cymru o 5% i 4.6%.

## FFIGUR 1

Rhagolwg gwariant yn ôl ardal fusnes y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru 2023-24, mis Tachwedd 2023

**Roedd y Comisiwn Etholiadol yn disgwyl gwario £1.4 miliwn yng Nghymru yn 2023-24, ac roedd bron i £1 miliwn yn gysylltiedig â chostau gweithredu uniongyrchol**




**NODIADAU**

1 Efallai na fydd y niferoedd yn gwneud union swm oherwydd talgrynnu.

2 Roedd y ffigurau hyn yn gywir ym mis Tachwedd 2023 ac felly efallai nad ydynt yn adlewyrchu ffigurau diwedd blwyddyn terfynol.

3 Dyma'r dadansoddiad diweddaraf o gostau Cymru yn 2023-24 a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Darparwyd dadansoddiad o'r rhaniad 2024-25 i Bwyllgor y Llywydd fel rhan o broses Prif Amcangyfrif 2024-25.

Ffynhonnell: Pwyllgor y Llywydd, *Gwaith Craffu ar Amcangyfrif Ariannol y Comisiwn Etholiadol 2024-25*, mis Tachwedd 2023, Atodiad A

# Rheolaeth ariannol a gwariant

**16** Mae gwariant y Comisiwn yn cael ei awdurdodi gan Ddeddfau Cyflenwadau a Dyraniadau blynyddol Senedd y DU a'i Hamcangyfrifon Cyflenwadau cysylltiedig. Mae'r Deddfau hyn yn cynnwys cyfres o derfynau gwario, a elwir yn gyfansymiau rheoli. Ystyrir unrhyw wariant sy'n fwy na'r cyfansymiau rheoli hyn yn afreolaidd. Er mwyn aros o fewn y cyfansymiau rheoli hyn, rhaid i'r Comisiwn baratoi a rheoli ei gyllideb flynyddol i sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer yr holl wasanaethau cymeradwy.

**17** Os bydd angen, yn ystod y flwyddyn ariannol, gall y Comisiwn geisio cynyddu ei gyllid drwy gyflwyno amcangyfrif atodol i Senedd y DU. Byddai'r rhain fel arfer yn darparu ar gyfer y costau sy'n codi'n annisgwyl yn ystod y flwyddyn ac sydd y tu allan i allu'r Comisiwn i reoli o fewn y cyllidebau presennol.

**18** Yn 2023-24, cafodd y Comisiwn amcangyfrif atodol, yn rhannol er mwyn talu am ddyfarniad cyflog staff ac am gostau mynd i'r afael ag ymosodiad seiberddiogelwch. Cynyddodd yr amcangyfrif atodol hwn Gyfanswm y Gwariant a Bleidleisiwyd o £1.4 miliwn.

**19** Yn ystod 2023-24, cynyddodd gwariant gros y Comisiwn i £32.7 miliwn o'i gymharu â £28.7 miliwn yn 2022-23.[3] Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn costau staff ac yng nghost rhai nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau TG a ffôn. Mae **Ffigur 2** yn dangos gwariant y Comisiwn rhwng 2021-22 a 2024-25.


**20** Yn 2023-24, roedd archwilwyr mewnol y Comisiwn wedi rhoi barn gyfyngedig oherwydd gwendidau yn fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Comisiwn. O ganlyniad, mae'r Comisiwn yn gwneud newidiadau i'w brosesau a'i reolaethau ar gyfer caffael, rheoli contractau a chyllid. Mae wedi cyflogi staff cyllid ychwanegol ac mae'n gweithio i wella ei ddull o fonitro perfformiad a'i fethodoleg. Mae hyn yn ychwanegol at waith i fynd i'r afael â chanfyddiadau llythyr rheoli 2022-23 y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

3 Roedd ffigur 2022-23 yn cynnwys amhariad o £1.8 miliwn yn ymwneud â Chyllid Gwleidyddol Ar-lein.

## FFIGUR 2

Gwariant y Comisiwn Etholiadol, 2021-22 i 2024-25

**Mae gwariant y Comisiwn Etholiadol wedi cynyddu, gyda Senedd y DU yn talu'r rhan fwyaf o'r costau**




NODIADAU

1 Efallai na fydd y niferoedd yn gwneud union swm oherwydd talgrynnu.

2 Daw'r data ar gyfer 2021-22 i 2023-24 o'r Adroddiadau Blynyddol a'r Cyfrifon a gyhoeddwyd.

3 Mae data ar gyfer 2024-25 yn rhagolwg gwariant o Femorandwm Prif Amcangyfrif y Comisiwn ar gyfer 2024-25.

4 Mae rhagolwg 2024-25 yn cynnwys costau ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2024.

Ffynhonnell: *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 a 2023-24 y Comisiwn Etholiadol*, a *Memorandwm y Prif Amcangyfrifon 2024/25: Y Comisiwn Etholiadol*, mis Mai 2024

# Barn archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

**21** Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn darparu barn archwilio annibynnol ar dros 400 o gyfrifon unigol ar draws y sector cyhoeddus, yn unol â'r safonau perthnasol a nodir yn ei dystysgrif archwilio. Mae dwy brif ran i farn y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon y Comisiwn.

- Barn archwilio gywir a theg: Mae hyn yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy gamgymeriad neu dwyll.
- Barn archwilio ar reoleidd-dra: Mae hyn yn golygu cael tystiolaeth bod adnoddau wedi cael eu defnyddio yn y ffordd y mae Senedd y DU wedi'i bwriadu a'i hawdurdodi, bod y Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwadau Seneddol yn cyflwyno'r alldro'n gywir yn erbyn cyfansymiau rheoli, ac nad aethpwyd dros y rhain.

## Y farn archwilio gywir a theg

**22** Rhoddodd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol farn gywir a theg ddiamod, heb addasu cyfrifon 2023-24 y Comisiwn. Cafodd sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn, a'u bod wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EF o dan y Ddeddf honno.

## Y farn ar reoleidd-dra

**23** Amododd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ei farn ar reolaidd-dra oherwydd bod y Comisiwn wedi mynd y tu hwnt i'w Derfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (CDEL) awdurdodedig. Gan fod costau CDEL yn cael eu talu gan San Steffan, ni chafodd hyn unrhyw effaith ar adnoddau'r Comisiwn a oedd ar gael ar gyfer gweithgareddau'r Comisiwn yng Nghymru. Ac eithrio'r gor-wariant hwn, ni aethpwyd yn uwch na'r Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwadau Seneddol, ac mae incwm a gwariant y Comisiwn wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU.

**24** Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (CDEL)[4] awdurdodedig y Comisiwn ar gyfer 2023-24 oedd £1.5 miliwn. Roedd alldro'r Comisiwn yn £1.9 miliwn, gan fynd £0.4 miliwn dros y terfyn hwn. Roedd y Comisiwn wedi ymrwymo i ddau gytundeb les newydd ar gyfer gofod swyddfa yng Nghaerdydd a Belfast, gan arwain at gydnabod asedau hawl i ddefnyddio gwerth £0.7 miliwn.[5] Yn unol â'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, mae cydnabyddiaeth gychwynnol o ased hawl i ddefnyddio yn cael ei dosbarthu fel CDEL a dyna pam aethpwyd dros y terfyn.

**25** Roedd y Comisiwn wedi methu rhoi cyfrif priodol am effaith gyllidebol lesoedd newydd naill ai yn ei brif amcangyfrifon neu ei amcangyfrifon atodol. Roedd y Comisiwn wedi cydnabod yn ei adroddiad blynyddol mai camgymeriad o ran cyllidebu oedd hyn a dywedodd fod mesurau wedi'u rhoi ar waith i'w atal rhag digwydd eto.

**26** Yn Amcangyfrif Atodol 2023-24 gwelwyd gostyngiad o £0.6 miliwn yn CDEL o ganlyniad i ailbroffilio gwariant cyfalaf ar y prosiect Cyllid Gwleidyddol Ar-lein. Nid oedd y prosiect hwn yn gysylltiedig â'r lesoedd, ond roedd cyfuno'r gwall cyllidebu a rhyddhau'r gyllideb yn yr Amcangyfrif Atodol wedi arwain at dorri'r cyfyngiadau gwario a'r amod cyfrifon dilynol.

**27** O ganlyniad i'r toriad hwn, rhaid i'r Comisiwn gael pleidlais gormodedd ddechrau 2025. Cyn hyn, bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu, ar ran Senedd y DU, ar y rhesymau pam fod y Comisiwn wedi mynd y tu hwnt i'r adnoddau a ddyrannwyd iddo, ac yn adrodd i Dŷ'r Cyffredin ynghylch a oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r symiau sydd eu hangen i unioni'r gormodeddau a nodwyd. Os bydd y Pwllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dweud nad yw'n gwrthwynebu'r gormodedd, bydd y bleidlais gormodedd yn cael ei chyflwyno i'r Tŷ i'w chymeradwyo heb drafodaeth.

4 Cyllideb sy'n cael ei ddyrannu i gyrff a'i wario ar fuddsoddiadau a phethau a fydd yn creu twf yn y dyfodol yw CDEL.
5 Nid Senedd Cymru sy'n talu am gost les Caerdydd.

# Staffio

**28** Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn yn cynnwys Adroddiad Tâl a Staff sy'n cynnwys manylion y Cadeirydd a'r Comisiynwyr, y Prif Weithredwr a'r tîm gweithredol, a staff a gyflogir gan y Comisiwn.

**29** Cyfanswm costau staff y Comisiwn yn 2023-24 oedd £15 miliwn, sef 46% o'r holl wariant gweithredol ar gyfer y flwyddyn. Roedd y Comisiwn yn cyflogi 197 o staff cyfwerth ag amser llawn, cynnydd o 17 ers 2022-23. Yn 2023-24, roedd trosiant staff yn 13.8%, i lawr o 21% yn 2022-23.

**30** Mae gwariant y Comisiwn yng Nghymru yn cynnwys costau staff yn bennaf, gyda 60% (£0.9 miliwn) o gyfraniad Senedd Cymru yn cael ei ddyrannu i gostau staff. Ym mis Hydref 2024, roedd 10 o staff yn cael eu cyflogi yng Nghymru.

**31** Yn 2023-24, darparodd y Comisiwn ddyfarniad cyflog o 4.5%, ochr yn ochr â thaliad untro heb ei gyfuno o £1,500. Roedd hyn yn gyson â'r Gwasanaeth Sifil ehangach[6] ac yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol o 4%. Arweiniodd hyn at gais yn yr amcangyfrif atodol am £0.5 miliwn ychwanegol. Cododd Pwyllgor y Llywydd a Phwyllgor y Llefarydd bryderon gan fod y Comisiwn wedi gwneud y taliad hwn cyn dod i unrhyw gytundeb â'r Pwyllgorau. Ar ben hynny, nododd Trysorlys EF ei ddisgwyliad cyffredinol y dylai dyfarniadau cyflog gael eu rheoli drwy gyllidebau presennol.

**32** Yn dilyn argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ymrwymodd y Comisiwn i fynd i'r afael â phryderon ynghylch capasiti ac arbenigedd y tîm cyllid drwy gyflogi gweithwyr cyfrifyddu proffesiynol ychwanegol. Arweiniodd hyn at gais o £0.2 miliwn yn yr Amcangyfrif Atodol.

**33** Yn 2023-24, roedd trosiant sylweddol ymysg cyfarwyddwyr, gyda thri phrif weithredwr ac ychwanegwyd tri chyfarwyddwr newydd.[7] Roedd hyn yn cynnwys cyfarwyddwr cyllid dros dro a oedd yn dal y swydd Swyddog Cyfrifyddu dros dro, ac sydd wedi gadael y Comisiwn bellach. Ym mis Mawrth 2024, roedd dau o'r chwe aelod o'r tîm gweithredol wedi'u cyflogi dros dro.

6 Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn mynnu bod y Comisiwn yn ystyried cysoni cyflogau ac amodau staff yn fras â rhai'r Gwasanaeth Sifil.

7 Cyn y penodiad, roedd un cyfarwyddwr yn dal y swydd Cwnsler Cyffredinol ac yn mynychu cyfarfodydd bwrdd yn y rôl honno.

# Yr ymosodiad seiber

**34** Ar 8 Awst 2023, cyhoeddodd y Comisiwn ei fod wedi bod yn destun ymosodiad seiber, lle gallai data personol sy'n cael ei gadw fel rhan o'r Gofrestr Etholiadol fod wedi cael ei gyrchu. Dechreuodd yr ymosodiad ym mis Awst 2021 a chafodd ei ganfod ym mis Hydref 2022.

**35** Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gerydd i'r Comisiwn am fethu diogelu'r wybodaeth bersonol yr oedd yn ei dal. Canfu fod y Comisiwn wedi methu cymryd camau sylfaenol i ddiogelu ei systemau. Petai'r camau hyn wedi cael eu cymryd, byddai'r toriad wedi bod yn annhebygol iawn. Cadarnhaodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod y Comisiwn wedi cymryd y camau dilynol angenrheidiol i wella ei ddiogelwch, ac nad oedd unrhyw reswm i gredu bod y toriad wedi achosi unrhyw niwed uniongyrchol neu wedi arwain at gamddefnyddio data. Roedd y Comisiwn wedi gweithio gydag arbenigwyr diogelwch a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i wneud y gwelliannau hyn.

**36** Arweiniodd y gwaith hwn at wariant ychwanegol ar seilwaith TG ac amddiffynfeydd seiber. Yn 2023-24, arweiniodd hyn at gais cychwynnol am £0.3 miliwn gan San Steffan yn y Prif Amcangyfrif, a chais wedyn am £0.3 miliwn ychwanegol yn yr Amcangyfrif Atodol.

**37** Ar gyfer 2024-25, roedd gwaith i gynnal cydymffurfedd â safonau seiberddiogelwch wedi cynyddu Prif Amcangyfrif y Comisiwn o £1.3 miliwn, gyda San Steffan yn talu am £1.2 miliwn ohono. Mae'r Comisiwn yn rhag-weld y bydd y costau parhaus yn £0.4 miliwn y flwyddyn ar gyfer diogelwch TG a chostau cysylltiedig. Bydd y costau hyn yn cael eu rhannu gan Senedd Cymru, Senedd y DU a Senedd yr Alban.

# Atodiad Un

## Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

**FFIGUR 3**
Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

**Paratoir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM)**

| **Adran** | **Adroddiad Perfformiad** | **Adroddiad Atebolrwydd** | | | | | | | **Datganiadau Ariannol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** | | | | **Adroddiad Taliadau a Staff** | **Adroddiad atebolrwydd ac archwilio Seneddol** | |
| **Cynnwys** | Yn darparu gwybodaeth am y corff, ei brif amcanion a'r prif risgiau y mae'n eu hwynebu. Rhaid iddo roi dadansoddiad teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad y corff. | Defnyddir i fodloni gofynion atebolrwydd allweddol i'r Senedd. Rhaid iddo gynnwys adroddiad llywodraethu corfforaethol; adroddiad taliadau a staff; ac adroddiad atebolrwydd ac archwilio Seneddol. | Nodi cyfansoddiad a threfn strwythurau llywodraethu'r corff, a sut maent yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y corff. Rhaid iddo gynnwys y canlynol o leiaf: | Adroddiad y Cyfarwyddwyr – yn cynnwys teitlau ac enwau'r holl Gomisiynwyr a â chyfrifoldeb am y Comisiwn yn ystod y flwyddyn, y person fu'n cyflawni swydd y Prif Weithredwr, cyfansoddiad y bwrdd rheoli, a gwrthdaro buddiannau posibl. | Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu – angen iddo egluro cyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu neu brif weithredwr y corff. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i'r swyddog cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM). | Datganiad llywodraethu – yn dwyn ynghyd pob barn a luniwyd gan y swyddog cyfrifyddu wrth ddefnyddio adnoddau i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am gynnydd y corff, yng ngoleuni'r risgiau a'r cyfleoedd y mae'r corff yn eu hwynebu. Dylai roi darlun clir o strwythur rheoli'r corff, ac ymdeimlad o'i wendidau a'i wydnwch i heriau. | Nodi polisi taliadau'r corff ar gyfer cyfarwyddwyr; adrodd sut mae'r polisi hwnnw wedi cael ei weithredu; a datgelu'r symiau a dalwyd i gyfarwyddwyr. Hefyd yn cynnwys niferoedd, cost a chyfansoddiad y staff; data absenoldeb salwch; gwariant ymgynghori; cyflogi oddi ar y gyflogres; a phecynnau ymadael. | Yn cynnwys:<br>• Datganiad Cyflenwi Seneddol, yn dangos gwariant yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd;<br>• Datgeliadau atebolrwydd Seneddol eraill; a<br>• Thystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin. | Yn cynnwys:<br>• Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr;<br>• Datganiad Sefyllfa Ariannol;<br>• Datganiad Llifoedd Arian;<br>• Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti; a<br>• Nodiadau i'r cyfrifon. |
| **Graddau'r archwilio** | Adolygu cysondeb â gwybodaeth yn y datganiadau ariannol. | Adolygu a phrofi cysondeb â gwybodaeth yn y datganiadau ariannol; darparu barn. | Adolygu cysondeb â gwybodaeth yn y datganiadau ariannol ac â dealltwriaeth ehangach yr archwilwyr o'r corff. | Adolygu cysondeb â gwybodaeth yn y datganiadau ariannol ac â dealltwriaeth ehangach yr archwilwyr o'r corff. | Adolygwyd gan:<br>• cymharu â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth;<br>• cadarnhau bod y datgeliadau'n cyfateb i ddealltwriaeth yr archwilwyr o'r busnes. | Adolygu:<br>• cydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*;<br>• ansawdd y cynnwys yng nghyd-destun y risgiau a nodwyd yn ystod y broses archwilio a gwybodaeth ehangach yr archwilwyr am y busnes; a<br>• cysondeb â chanfyddiadau unrhyw adroddiadau gwerth am arian NAO neu waith perthnasol arall. | Adolygu cysondeb â gwybodaeth yn y datganiadau ariannol. Tablau allweddol yn yr adroddiad taliadau, niferoedd a chostau staff, a phecynnau ymadael, wedi'u profi'n llawn. | Archwilio ac yn destun barn archwilio. | Archwilio ac yn destun barn archwilio. |

Ffynhonnell: *Trysorlys EF, Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth: 2023-24*, Mehefin 2024

National Audit Office

Design and Production by NAO Communications Team
DP Ref: 016285-001